# Cynllun Grantiau Bach Glastir Carbon

Rhaglen gwaith cyfalaf yw Grantiau Bach Glastir, sydd ar gael i fusnesau ffermio ledled Cymru i gynnal prosiectau fydd yn helpu i gloi carbon.

Bydd eitemau Gwaith Cyfalaf yn cynnwys ‘Prif’ Waith a Gwaith ‘Ategol’. Gyda’i gilydd, maen nhw’n ffurfio ‘Prosiect’.

Bydd prosiect yn cynnwys:

- Y Prif Waith Cyfalaf, i fynd i’r afael ag amcanion y thema
- Y Gwaith Cyfalaf Ategol sy’n ei gwneud yn bosib cynnal y Prif Waith Cyfalaf e.e. Plannu perth/gwrych (opsiwn 900), yw’r Prif Waith Cyfalaf ond byddai codi ffens postyn a weiren (opsiwn 594) i ddiogelu’r berth rhag difrod yn Waith Cyfalaf Ategol Gorfodol, a byddai Gatiau Pren Caled (opsiwn 599) yn Waith Cyfalaf Ategol Opsiynol.

Mae’r Thema Carbon yn cynnig eitemau Gwaith Cyfalaf sydd wedi cael eu dewis am eu manteision amgylcheddol eang a bras a’u gallu i wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru i ddal mwy o garbon. Mae ‘dal carbon’ yn golygu storio carbon deuocsid am y tymor hir ac mae’n cael ei ystyried fel ffordd i arafu’r broses lle mae nwyon tŷ gwydr yn crynhoi yn yr atmosffer.

## Cael gwared ar fwy o garbon

Mae coed a llwyni i gyd yn amsugno carbon deuocsid wrth dyfu. Y nod yw eu defnyddio am eu rhan yn y cylch carbon i ddal carbon deuocsid a chymryd carbon amaethyddol o’r atmosffer.

Mae perthi’n ddefnyddiol iawn ar gyfer rheoli stoc ac i roi cysgod i dda byw ac fel rhwystrau effeithiol i arafu lledaeniad clefydau anifeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod pwysigrwydd perthi fel rhan o’n treftadaeth ddiwylliannol a’u gwerth anferth i anifeiliaid gwyllt a’r dirwedd. Mae mwy o bobl yn dod i sylweddoli eu gwerth hefyd o ran amddiffyn pridd a rhwystro llygredd rhag lledaenu.

Bydd cynyddu’r perthi a’r coed yng Nghymru yn cael effaith bositif ar hinsawdd sy’n newid trwy gymryd nwyon tŷ gwydr o’r atmosffer a storio carbon yn y biomas. Mae arferion amaethyddol sy’n dal carbon yn llesol i ansawdd pridd, aer a dŵr yn ogystal ag i fioamrywiaeth.

Datgan Diddordeb
www.llyw.cymru/glastir

Dewis a Sgorio
www.llyw.cymru/glastir

Contractau Grantiau Bach Glastir
www.llyw.cymru/glastir

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG41827 ISBN digidol: 978-1-80082-592-5 Fferswin 2 Ionawr 2021

# Datgan Diddordeb

## Llyfryn Rheolau Cyffredinol Grantiau Bach Glastir

### Dewis a Sgorio

I alluogi Llywodraeth Cymru i ddewis y Datganiadau o Ddiddordeb hynny sy'n cynnig y gwerth amgylcheddol gorau am yr arian, bydd pob Datganiad o Ddiddordeb yn cael ei sgorio a'i raddio. Bydd contractau yn cael eu cynnig i'r Datganiadau o Ddiddordeb sy'n cael eu graddio uchaf.

Thema'r Cyfnod Grantiau Bach Glastir hwn yw 'Carbon', a dewiswyd y gweithgareddau sydd ar gael am eu gallu i gyfrannu at ddal mwy o garbon.

Neilltuwyd sgôr ar gyfer pob gweithgaredd sydd ar gael i bob cae cymwys yng Nghymru. Mae'r sgôr hwn yn cynnwys y canlynol;

Sgôr Sylfaen Grantiau Bach Glastir: mae un pwynt wedi'i neilltuo i bob cae cymwys er mwyn cydnabod y gall pob darn o dir gyfrannu at nodau'r cynllun. Amcanion Targed: mae nifer o amcanion targed wedi'u nodi ar draws Cymru.

Mae'r amcanion hyn yn cynnwys gwella perthi/gwrychoedd a phlannu coed er mwyn dal mwy o garbon.

Bydd gan bob cae nifer gwahanol o bwyntiau, gan ddibynnu ar y gweithgaredd penodol a'r cyfuniad o amcanion targed perthnasol sy'n gorgyffwrdd arno.

Bydd y sgrin 'Creu Prosiect' yn dangos y sgôr a neilltuwyd i bob cae ar gyfer pob gweithgaredd sydd ar gael. Mae'r gweithgaredd sy'n sgorio uchaf ar gyfer pob cae wedi'i uwcholeuo mewn gwyrdd.

Bydd rhai caeau wedi'u marcio fel 'n/a' (ddim ar gael) naill ai gan nad yw'r cae yn gymwys, neu gan nad yw'r gweithgareddau penodol yn gymwys os oes posibilrwydd y gallant niweidio nodwedd amgylcheddol. Er enghraifft, ni fydd opsiynau plannu coed ar gael ar dir yr ystyrir ei fod yn bwysig ar gyfer bridio cornchwiglod. Mae nythod yr adar prin hyn, sy'n nythu ar y ddaear, yn dioddef o ganlyniad i frain ysglyfaethus, a bydd coed newydd yn rhoi mwy o le i'r brain hela am nythod cornchwiglod ohonynt. Felly, nid yw'n addas plannu mwy o goed yn yr ardaloedd hyn.

Pan fydd y broses ddewis wedi'i chwblhau, caiff llythyrau dewis eu rhoi ar y cyfrif RPW Ar-lein, p'un a yw'ch Datganiad o Ddiddordeb 'wedi'i ddewis' neu 'heb ei ddewis'. Byddwn yn eu rhoi o dan benawdau gwahanol er mwyn ichi allu gweld y prosiectau 'llwyddiannus' ac 'aflwyddiannus' yn hawdd.

Ar ôl eu dilysu, caiff contractau eu paratoi, gyda 21 niwrnod i naill ai 'dderbyn' neu 'wrthod' y prosiect ar RPW Ar-lein. Cewch ddechrau ar y gwaith unwaith y caiff y contract ei dderbyn. Y dyddiad cau ar gyfer hawlio a chyflwyno ffotos geotag yw 31 Mawrth 2022.

## Prif Waith Cyfalaf


610 Coed – Hirgyff (dim ffensio)

611 Coed a Llwyni – Trawsblannu

612 Coed a Llwyni – Coed chwip

646 Plannu Llafnau

900 Plannu Perth/Gwrych Newydd

901 Bondocio Perthi/Gwrychoedd a Chau Bylchau

902 Plygu Perth/Gwrych

929 Coed Ffrwythau a Phostyn a Giard


## Gwaith Cyfalaf Ategol


514 Camfa Ysgol

516 Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren

517 Cilbyst a Gât Mochyn o Bren

519 Camfa Bren

533 Gât Mochyn Daear

563 Pibelli Cyflenwi Dŵr

573 Gât Ddŵr

574 Cafnau Dŵr

593 Ffens Postyn a Rheilen

594 Ffens Postyn a Weiren

595 Ffens Postyn a Weiar gyda Netin Stoc

596 Ffensys Cwningod

599 Gatiau Caeau (Pren Caled)

600 Gatiau Caeau (Pren Meddal)

604 Giardiau Rhag Stoc ar Goed Parcdir

608 Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn)

647 Llewys Coed Rhag Cwningod

905 Rheoli Mieri/Prysg – Chwistrellydd Cefn

919 Rheoli Rhedyn (Chwistrellydd Cefn)

920 Rheoli Rhedyn (â Pheiriant)

921 Rheoli Rhedyn ((Chwistrellydd ar Dractor)


# Cynnwys

Bydd Prosiect Grantiau Bach Glastir yn cynnwys un Prif Waith Cyfalaf gydag un neu nifer o Weithiau Cyfalaf Ategol. Noder bod y Gwaith Cyfalaf Ategol yn orfodol, dewisol neu ddim ar gael, yn dibynnu pa Brif Waith Cyfalaf sy'n cael ei gefnogi o fewn y Prosiect hwnnw.

Gweler y Tabl isod:

| | | Gwaith Cyfalaf Ategol | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cod | 514 | 516 | 517 | 519 | 533 | 563 | 573 | 574 | 593 | 594 | 595 | 596 | 599 | 600 | 604 | 608 | 647 | 905 | 919 | 920 | 921 |
| Prif Waith Cyfalaf | Cod | Teitl | Camfa Ysgol | Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren | Cilbyst a Gât Mochyn o Bren | Camfa Bren | Gât Mochyn Daear | Pibelli Cyflenwi Dŵr | Gât Ddŵr | Cafnau Dŵr | Ffens Postyn a Rheilen | Ffens Postyn a Weiren | Ffens Postyn a Weiar gyda Netin Stoc | Ffensys Cwningod | Gatiau Caeau (Pren Caled) | Gatiau Caeau (Pren Meddal) | Giardiau Rhag Stoc ar Goed Parcdir | Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn) | Llewys Coed Rhag Cwningod | Rheoli Mieri/ Prysg – Chwistrellydd Cefn | Rheoli Rhedyn (Chwistrellydd Cefn) | Rheoli Rhedyn (â Pheiriant) | Rheoli Rhedyn (Chwistrellydd ar Dractor) |
| | 610 | Coed – Hirgyff (dim ffensio) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 611 | Coed a Llwyni – Trawsblannu | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| | 612 | Coed a Llwyni – Coed chwip | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| | 646 | Plannu Llafnau (dim ffensio) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 900 | Plannu Perth/ Gwrych Newydd | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| | 901 | Bondocio Perthi/ Gwrychoedd a Chau Bylchau | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| | 902 | Plygu Perth/Gwrych | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| | 929 | Coed Ffrwythau a Phostyn a Giard | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 2 | 2 | 0 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 | 2 |

0 n/a  2 opsiynol  1 gorfodol

### Nodyn ynglŷn â defnyddio Asulam yn agos at gyrsiau dŵr, a safleoedd dynodedig:

Mae rhwymedigaeth statudol ar reolwyr tir i gael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn defnyddio chwynladdwyr/phlaladdwyr dan unrhyw un o'r amgylchiadau isod:

Bydd angen cytundeb chwynladdwyr syml arnoch os ydych yn dymuno chwistrellu:

- Ar unrhyw dir sydd o fewn 1500m i safle dynodedig fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu Warchodfa Natur Leol, Forol neu Genedlaethol ond nad yw ar y safle dynodedig, neu,
- O fewn 250m i ddŵr, gan gynnwys ar lannau cyrsiau dŵr neu lynnoedd, ond nid mewn/ar ddŵr.

Rhaid ichi ddilyn y cyngor a'r arweiniad sydd ar gael ar wefan CNC.

Bydd angen ichi wneud cais i CNC am gytundeb risg uwch (a elwid gynt yn 'gytundeb cymhleth') os ydych yn dymuno chwistrellu:

- Mewn safle dynodedig fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu mewn Gwarchodfa Natur Leol, Forol neu Genedlaethol, neu,
- Ar/mewn dŵr er mwyn rheoli chwyn mewn dŵr.

Mae rhagor o fanylion am yr uchod, gan gynnwys y ffurflenni cais a lleoliadau safleoedd dynodedig i'w gweld ar wefan CNC.

### Rhaid cadw at y canlynol:

- Gofalwch eich bod yn trin darn digon mawr o redyn i unrhyw goed rydych yn eu plannu allu cydio heb i redyn amharu arnyn nhw.
- Gwnewch yn siŵr fod gennych Ganiatâd Argyfwng i ddefnyddio Asulam.
- Gofalwch eich bod yn defnyddio cynnyrch Asulam sy'n addas at eich diben penodol a'r dull o wasgaru. Cadwch label y cynnyrch a'i ddangos pan ofynnir amdano.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio Asulam ar ddyddiadau sy'n cydymffurfio â'r argymhellion ar y label ac sy'n cael eu caniatáu dan y Caniatâd Argyfwng.

### Peidiwch â:

- Rheoli rhedyn drwy losgi.
- Defnyddio bag cefn i reoli llystyfiant sy'n uwch na'ch gwasg neu i glirio darnau mawr o dir. Bydd yn waith blinedig cadw'r fraich uwchben y rhedyn a byddwch yn debygol o fethu rhannau.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw gemegyn arall heblaw 'Asulam' heb ganiatâd Llywodraeth Cymru.

### Cyngor ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol, yn ychwanegol at y manylebau uchod:

- Os ydych yn bwriadu defnyddio chwynladdwyr, gan gynnwys Asulam yng nghyffiniau dŵr neu safle dynodedig, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael y caniatâd perthnasol oddi wrth CNC.
- Mae'n bwysig cofio serch hynny y gall lleiniau o redyn gyfrannu at yr amrywiaeth yn y dirwedd a'u bod yn gallu bod o werth mawr i natur ynddynt eu hunain. Lle'u gwelir yn gymysg â llwyni a choed gwasgarog, mae rhedyn yn bwysig yn aml i adar fel crec yr eithin, y bras melyn a'r troellwr mawr. Gallai rhedyn agored ac isdyfiant o fioled gynnal poblogaethau o bili-palod teulu'r britheg. Gall hyd yn oed leiniau trwchus â thrwch o ddeiliach marw roi cysgod i adar ysglyfaethus sy'n gaeafu, fel y bod tinwen a'r dylluan glustiog, ynghyd â mamaliaid fel llygod coch, moch daear a cheirw.
- Cofiwch ddilyn yr holl argymhellion sydd gan y gwneuthurwyr ar y label ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr.
- Ar ôl torri, dylech yn ddelfrydol roi stoc trwm, fel gwartheg, i bori'r tir cyn plannu coed gan y bydd hynny'n rhwystro'r ffrondiau rhag aildyfu.
- Fe'ch cynghorir i ddilyn yr argymhellion yn y 'Green Code' (Y Cod Ymarfer Cymeradwy ar gyfer Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel ar Ffermydd a Daliadau, MAFF, 1998).

### Nodyn ynglŷn â defnyddio Asulam yn agos at gyrsiau dŵr, a safleoedd dynodedig:

Mae rhwymedigaeth statudol ar reolwyr tir i gael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn defnyddio chwynladdwyr/phlaladdwyr dan unrhyw un o'r amgylchiadau isod:

Bydd angen cytundeb chwynladdwyr syml arnoch os ydych yn dymuno chwistrellu:

- Ar unrhyw dir sydd o fewn 1500m i safle dynodedig fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu Warchodfa Natur Leol, Forol neu Genedlaethol, ond nad yw ar y safle dynodedig, neu,
- O fewn 250m i ddŵr, gan gynnwys ar lannau cyrsiau dŵr neu lynnoedd, ond nid mewn/ar ddŵr.

Rhaid ichi ddilyn y cyngor a'r arweiniad sydd ar gael ar wefan CNC.

Bydd angen ichi wneud cais i CNC am gytundeb risg uwch (a elwid gynt yn 'gytundeb cymhleth') os ydych yn dymuno chwistrellu:

- Mewn safle dynodedig fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu mewn Gwarchodfa Natur Leol, Forol neu Genedlaethol, neu,
- Ar/mewn dŵr i reoli chwyn mewn dŵr.

Mae rhagor o fanylion am yr uchod, gan gynnwys y ffurflenni cais a lleoliadau safleoedd dynodedig i'w gweld ar wefan CNC.

### Rhaid cadw at y canlynol:

- Gofalwch eich bod yn trin darn digon mawr o redyn i unrhyw goed rydych yn eu plannu allu cydio heb i redyn amharu arnyn nhw.
- Gwnewch yn siŵr fod gennych Ganiatâd Argyfwng i ddefnyddio Asulam.
- Gofalwch eich bod yn defnyddio cynnyrch Asulam sy'n addas at eich diben penodol a'r dull o wasgaru. Cadwch label y cynnyrch a'i ddangos pan ofynnir amdano.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio Asulam ar ddyddiadau sy'n cydymffurfio â'r argymhellion ar y label ac sy'n cael eu caniatáu dan y Caniatâd Argyfwng.

### Peidiwch â:

- Rheoli rhedyn drwy losgi.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw gemegyn arall heblaw 'Asulam' heb ganiatâd Llywodraeth Cymru.

### Cyngor ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol, yn ychwanegol at y manylebau uchod:

- Os ydych yn bwriadu defnyddio chwynladdwyr, gan gynnwys Asulam yng nghyffiniau dŵr neu safle dynodedig, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael y caniatâd perthnasol oddi wrth CNC.
- Mae'n bwysig cofio serch hynny y gall lleiniau o redyn gyfrannu at yr amrywiaeth yn y dirwedd a'u bod yn gallu bod o werth mawr i natur ynddynt eu hunain. Lle'u gwelir yn gymysg â llwyni a choed gwasgarog, mae rhedyn yn bwysig yn aml i adar fel crec yr eithin, y bras melyn a'r troellwr mawr. Gallai rhedyn agored ac isdyfiant o fioled gynnal poblogaethau o bili-palod teulu'r britheg. Gall hyd yn oed leiniau trwchus â thrwch o ddeiliach marw roi cysgod i adar ysglyfaethus sy'n gaeafu, fel y bod tinwen a'r dylluan glustiog, ynghyd â mamaliaid fel llygod coch, moch daear a cheirw. Cofiwch ddilyn yr holl argymhellion sydd gan y gwneuthurwyr ar y label ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr. Peidiwch â defnyddio chwistrellydd cefn i reoli llystyfiant sy'n uwch na'ch canol, nac ar gyfer clirio darnau mawr o dir.
- Cofiwch ddilyn yr holl argymhellion sydd gan y gwneuthurwyr ar y label ar gyfer defnyddio'r chwynladdwr.
- Ar ôl torri'r rhedyn, dylech yn ddelfrydol adael i dda byw trwm fel gwartheg bori'r tir cyn dechrau plannu coed, gan y byddai hynny'n helpu i rwystro'r rhedyn rhag ail dyfu.
- Fe'ch cynghorir i ddilyn yr argymhellion yn y 'Green Code' (Y Cod Ymarfer Cymeradwy ar gyfer Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel ar Ffermydd a Daliadau, MAFF, 1998).